Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl326

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd ar gyfer Clwb Achub Bywyd Syrffio Traeth Poppit**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
I gydnabod y gwaith gwirfoddol gyda phobl ifainc Llandudoch a'r ardaloedd cyfagos, cynigiwyd rhoi rhodd i Glwb Achub Bywyd Syrffio Traeth Poppit fel diolch am eu gweithgarwch rhagweithiol a chadarnhaol.

Mae'r clwb yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifainc yr ardal ddatblygu sgiliau sy'n gysylltiedig ag achub bywyd a diogelwch dŵr.

Mae Plant Iau (7-12), Plant Hŷn (13-17), Oedolion (18-29) a Meistri (30+) yn hyfforddi drwy gydol y flwyddyn – yn y pwll, ar y traeth ac yn y môr. Mae aelodau o bob oed yn datblygu lefelau ffitrwydd, ac yn ymarfer technegau achub a chymorth cyntaf, gan gynnwys adfywio cardio-pwlmonaidd, sy'n arwain at gymwysterau achrededig amrywiol.

Yn 2023, cynhaliodd y Clwb Bencampwriaeth Plant Iau Cymru ar Draeth Poppit, gan dderbyn Clwb Plant Iau'r Flwyddyn gan Gymdeithas Achub Bywyd Syrffio Cymru.

Yn drist, bu marwolaeth drasig llynedd ac achubodd aelodau o'r clwb rai eraill a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi Blaenoriaeth 2: Atal niwed y Cynllun Heddlu a Throseddu.

**Argymhelliad:**
Bod CHTh yn rhoi £500 i Glwb Achub Bywyd Syrffio Traeth Poppit o'r Gronfa Gwerthu Eiddo y Daethpwyd o Hyd Iddo.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 31/01/2024**